y dinesydd

Ionawr/Chwefror 2004 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 286

# Wynebu problemau capel ac eglwys

Mae capeli cefn gwlad Cymru yn cau wrth y cannoedd. Un o'r rhesymau am hyn yw bod nifer o'r bobl ifanc yn gadael eu broydd. Gallwch ddarllen yn aml mewn papur bro bod hwn a hwn neu hon wedi gadael am borfeydd breision Caerdydd. Yma mae'r gwaith, yr adloniant a mannau hudolus fel ein llo aur, Stadiwm y Mileniwm.

Gwyddom y gall y stadiwm honno ddal tipyn dros 75,000 o bobl. Pe bai holl aelodau'r Presbyteriaid Cymraeg yng Nghymru heddiw yn eistedd yn ei seddau, ni fyddai'n hanner llawn. Pe bai holl Annibynwyr Cymraeg Cymru yn ymuno â nhw, byddai seddau sbâr yno o hyd. Gallai holl gymunwyr Pasg yr Eglwys yng Nghymru, eistedd yn y rhan fwyaf o'r seddau, gan adael digon yn sbâr.

O sylweddoli hyn, mae dechrau blwyddyn newydd yn esgus da dros fwrw trem ar ambell wedd ar grefydd yn y ddinas a'r cyffiniau. Purion fyddai dechrau ym Methel yr Annibynwyr, Penarth a welir yn y llun isod. Mae'n llun hanesyddol.



Ar hyn o bryd mae yno tua chant o aelodau. Rai degawdau yn ôl, prin ugain oedd yn addoli yno. Mae yma gynnydd sylweddol felly. Pan ymwelodd swyddogion rheolau diogelwch ac iechyd ag eglwysi a chapeli Cymru'n ddiweddar i'w cloriannu a'u cael yn boenus o brin, creasant lanast oedd tu hwnt i ddychymyg unrhyw ddiafol. Gosodasant faich ariannol rhy drwm ar ysgwyddau nifer mawr o aelodau llawer o'r "blychau bach diaddurn", chwedl un o'n dinasyddion gynt. Wynebodd Bethel fil o tua £100,000 i wneud yr adeilad yn ddiogel ac addas i bawb, sef tua mil o bunnoedd i bob aelod. Erbyn ichi dderbyn y rhifyn hwn, mae'n bosib y bydd y Bethel hwnnw wedi cael ei ddymchwel a gobeithia'r aelodau brwdfrydig godi adeilad fydd yn fwy pwrpasol ac a fydd yn costio £400,000 yn ei le. Oherwydd cymunroddion ac ati, mae ganddyn nhw gronfa wrth gefn ond bydd pocedi'r aelodau hefyd yn gorfod dioddef.

Rhywbeth yn debyg yw stori eglwys Dewi Sant sydd yn estyn croeso i ychydig dros gant o gymunwyr y Pasg, y nifer helaethaf ohonyn nhw dipyn dros eu trigain oed. Daw tua hanner y nifer hwnnw i'r prif wasanaeth ar fore Sul, a dyma yw'r stori sydd gan y rhan fwyaf o'r addoldai eraill i'w hadrodd. Pobl un oedfa yw pobl y ddinas erbyn hyn. Ychydig sy'n mynychu oedfaon yr hwyr.



Yn y llun uchod gan un o'r aelodau, y ffotograffydd Islwyn Jenkins a argreffir yma, edrychwn ar gefn yr eglwys wedi ei harddu ar gyfer gŵyl flodau i gael arian i'r coffrau a rhai o'r meinciau. Penderfynwyd nad yw'r adeilad anferth yn addas ar gyfer addolwyr 2004 ac mae'r cynlluniau a gynigir yn Newi Sant yn galw am glirio'r holl feinciau a rhoi seddau yn eu lle, dymchwel y mur cefn a gosod mur o wydr yn ei le - i dywallt goleuni i gorff yr eglwys. Trefnwyd i ddwyn yr allor yn nes at y bobl a chreu ystafelloedd newydd a swyddfa. Dymunir troi'r neuadd yn fan cyfarfod i bawb gyda drws newydd yn y cefn. A rhaid atgyweirio'r to. Bydd hyn yn debyg o gostio dwywaith cymaint â'r £400,000 sy'n wynebu aelodau Bethel ond does dim sicrwydd y bydd hyn oll yn denu rhagor i addoli yno a chrefydd ar drai.

Mae gan Gapel y Crwys tua phedwar cant o aelodau. Mae darllen tudalen yr eglwysi yn y rhifyn hwn yn dangos llewyrch cymharol y bywyd cymdeithasol yno, gweithgareddau na ellir ond breuddwydio amdanyn nhw yng nghefn gwlad. Mae'r adeilad aml-bwrpas gyda'i theatr ac ati'n ddelfrydol, ond mae darllen ambell ystadegyn yn sobri rhywun.

Yn 1900, roedd tua 200,000 o aelodau gan y Presbyteriaid. Yn 1973, roedd gan Henaduriaeth De Morgannwg 3676 o aelodau a 65 o gapeli. Erbyn 2003 roedd nifer yr aelodau wedi disgyn i 719 a dim ond deuddeg capel sydd ar ôl. Mae nifer y bugeiliaid amser llawn wedi disgyn o wyth i ddau.

Yn 1973 roedd 87 o blant yn mynychu'r capel ac roedd llond sêt fawr o blant yn dweud adnod yn ystod oedfa bore Sul. Heddiw, dim ond ychydig sy'n gwneud hynny. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm yr hyn sy'n digwydd mewn sawl adeilad er bod yn darlun at ei gilydd yn un o lewyrch cvymharol.

Mae'r byd modern a newid yn gwasgu o bob cyfeiriad. Yn y man bydd Yr Aes yn fan cerdded yn unig. Mae holl gapeli Caerdydd yn dibynnu ar aelodau sy'n dod yno yn eu ceir. Does neb yn cerdded i wasanaeth. Mae cwtogi fel hyn ar fannau parcio'n mynd i bwyso'n drwm ar gapeli fel Ebeneser a'r Tabernacl. Mae'r car mor gyfleus ond mor anodd cael gwared arno dros dro.

Sut mae'r dyfodol yn mynd i ddatrys hyn oll? Amser yn unig a ddengys.

# Y Dinesydd

**Ionawr/Chwefror, Rhif 286.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
**W.J. Jones**

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
**Siân Parry-Jones**

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth 2004 erbyn 23 Chwefror at:**
Siân Parry-Jones, 87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4NH (Ffôn: 07985-043633; e-bost: sepj@cardiffbay.clara.co.uk).

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod.)

### DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu'r Dinesydd (er enghraifft, os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopi neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr) neu os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

### HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk

### CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*. (Gweler uchod.)

### CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 45** **Ion./Chwef. 2004**



**Ar Draws**

1. Cael cip lan i'r uchafbwynt (6)
4. Fel y bo Nic ddigalon yn cael hwb (6)
9. Ffeindio pwll yn siop y dewin (5)
10. Lluchiad dail yn cefnu ar yr afon (7)
11. 'Mae'r iachawdwriaeth ____
Yn ddigon i bob rhai' (PJ) (3)
12. Celficyn dyn o drefn bregus (9)
13. 'Gwaed ___ ____ ___ ____ y graith
Na welir moni eilwaith.' (JW) (1,5,1,4)
18. Ceir tai ar sawl ffordd yn y wlad yma (9)
21. 'Tor amheuaeth sych, digysur,
Tywyll, dyrys cyn bo ___ (WW) (3)
22. Daw helbul i ti, Bryn, wrth gyffroi (7)
23. Cael stori yng nghanol y traha nesaf.
24. Mae tunelli trwstan yr ochr draw (6)
25. 'Dwy natur mewn yn Person
Yn anwahanol mwy,
Mewn ___ heb gymysgu,
Yn eu perffeithrwydd hwy (AG) (6)

**I Lawr**

1. Pâl heb orffen glanhau ac addurno efallai! (6)
2. Peth hynod yw mwydro Deon dig (7)
3. Rywsut drwy'r co' mae cyfeiliorni (7)
5. Man i aros mewn gorsaf leol (5)
6. Does dim llew yn Lloegr yn creu y marciau yma (5)
7. Asio cymdeithas y disgwyr ac un dim (6)
8. a 17. 'Yn y ___ mewn cadachau
A heb le i roi'i ben i lawr
___ ____ lu'r gogoniant
Yn ei addoli'n Arglwydd mawr' (AG) (6) (3,8)
14. Gloywi gan haul tanbaid (8)
15. 'Yn un tragwyddol Dduw i fod,
___ ____ Dri Personau' (LlGC) (2,5)
16. A glywir sŵn tap y ffon? (6)
17. Gweler 8
19. Siroedd y tasgau (5)
20. Creu cynnwrf drwy ffrwydro'r teiar (5)

**Croesair Rhif 44**

**Ar draws:** 1. Plant; 4. Camp; 8. Cogyddes; 9. Gwella; 10. Dwyn; 11. Caerwysg; 13. Clebar; 14. Lefain; 16. Ysgariad; 17. Sgwd; 20. Erwau; 21. Llawenydd; 22. Glaw; 23. Sydyn. **I Lawr:** 1. Poced; 2. Ar glywed grŵn; 3. Toddi; 4. Castan; 5. Magwraeth; 6. Delynau genid; 7. Casgen; 12. Dagreuol; 13. Cryfed; 15. Canllaw; 18. Diddan; 19. Gwas.

Derbyniwyd 18 o gynigion, ac 16 ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Catrin Rowlands, 9 Cae Caradog, Caerffili. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwilym Lloyd Edwards, Rhiannon Evans, Megan Griffiths, Gaenor Hall, Heledd Hall, Heledd Hayes, Gwenda Hopkins, H.O. Hughes, Idwal Hughes, Gethin Jones, Margaret Jones, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Huana Simpson a James Wiegold.

**Cystadleuaeth Ionawr/Chwefror** Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 23 Chwefror 2004.

## Llwyddiant i Gwenno

Llongyfarchiadau i Gwenno Saunders, y gantores a'r ddawnswraig o Gaerdydd ar ennill cystadleuaeth Dewis y Bobl yng Nghystadleuaeth Amgen Eurovision yn yr Iseldiroedd. Mae Gwenno'n canu yn y Gymraeg a'r Gernyweg. Mae ei mam yn Gymraes a'i thad, Tim Saunders, yn hanu o Gernyw ac yn un o'r ychydig sy'n gallu siarad Cernyweg a rhoi gwersi yn yr iaith yn ogystal. Yn yr ŵyl arbennig hon canodd Gwenno ei chân sengl newydd *Vodya*. Roedd y band sy'n hanu o Ogledd Cymru, Epotaff gyda hi i gynrychioli Cymru. Mae Gwenno wedi arwyddo i Gwmni Sain a dywedodd ei bod yn arfer gwrando ar yr Eurovision Song Contest pan oedd yn blentyn ac yn methu deall pam nad oedd neb o Gymru neu o Gernyw yn cael canu dros eu gwlad.

Gan ei bod wedi clywed cymaint o Gernyweg ar yr aelwyd dywedodd Gwenno ei bod yn falch cael hyrwyddo'r Gernyweg. A hithau'n ifanc o hyd mae Gwenno wedi cael cyfle i deithio byd gyda sioe *Lord of the Dance* Michael Flatley. Bydd darllenwyr *Y Dinesydd* yn cofio amdani hefyd yn canu ac yn dawnsio (ymhlith pethau eraill) yn y clwb nos a gychwynnodd Hywel Llywelyn a Cassie yn Abertawe *Pobol y Cwm*. Pob hwyl iddi yn y dyfodol.

## Prifweithredwr newydd i Fwrdd yr Iaith

Llongyfarchiadau i Meirion Prys Jones, Dirprwy Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith ar ei ddyrchafiad i swydd Prif Weithredwr. Bydd yn olynu John Walter Jones fydd yn ymddeol ym mis Ebrill. Roedd ei dad, y diweddar T.J.Rhys-Jones yn ŵr amlwg iawn ym myd yr iaith Gymraeg. Un o'r llyfrau pwysicaf a gyhoeddodd oedd *Teach Yourself Welsh* yn y gyfres Teach Yourself, Gwasg Rhydychen.

## Geni dau faban

Llongyfarchiadau i Ashley a Siwan Drake ar enedigaeth Non Gwenllian ddiwedd Tachwedd. Mae Lis Angharad wrth ei bodd ar ôl cael chwaer fach newydd. Llongyfarchion hefyd i Rhodri Evans ac Amy Latham, Yr Eglwys Newydd ar enedigaeth Enfys Catrin, wyres i Julia Burns, Yr Eglwys Newydd a'r prifathro Roy Evans ac Eira Evans Biwmares.

## Cydymdeimlad

Mae ein cydymdeimlad dwysaf gydag Elan Griffith, y merched, Lowri, Mari a Catrin (Casnewydd) a'r teulu oll ar farw Gwilym yn ddiweddar. Bu'n wael am gryn dipyn ond dioddefodd ei gystudd yn dawel. Am flynyddoedd bu'n llawfeddyg ymgynghorol yn Ysbyty'r Royal Gwent. Roedd yn fab i'r diweddar Barchedig J H Griffith a ragflaenodd Y Parchedig Cynwil Williams yn weinidog y Capel Mawr, Dinbych. Bu'n un o'n cyd-ddinasyddion am flynyddoedd.

## Cinio'r Tregaroniaid

Mae amser cinio ar ddydd Mawrth cyntaf pob mis yn adeg arbennig iawn i rai o gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron sy'n byw yng nghyffiniau'r brifddinas.

Ar yr adeg yma'n fisol, rhwng hanner dydd a dau o'r gloch maen nhw'n cyfarfod yn nhafarn Y Mochyn Du, Clos Sophia, sy'n eiddo i un o hen ddisgyblion yr ysgol.

Achlysuron hollol anffurfiol yw'r rhain ac mae'n fwy na thebyg bod cyn-ddisgyblion ambell ysgol arall yn gwneud yr un peth. Criw bychan ydyn nhw, rhai sy'n gallu dod ynghyd ganol dydd a bydden nhw'n falch gweld mwy'n dod o bryd i'w gilydd. Dylai'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* fod gyda chi ddechrau Chwefror, ond rhag ofn na fydd, gall unrhyw un a fu yn Ysgol Uwchradd Tregaron nodi: 2 Mawrth, 6 Ebrill, 4 Mai, 1 Mehefin, 6 Gorffennaf, 7 Medi, 5 Hydref, 2 Tachwedd a 7 Rhagfyr yn ei ddyddiadur. Gall unrhyw un a garai gael mwy o fanylion ffonio: 029 20 89 1351.

## Esgob Saunders yn Ymddeol



Ar 18 Chwefror bydd Y Gwir Barchedig Saunders Davies yn ymddeol o fod yn Esgob Bangor er 1999. Ei ddymuniad oedd cael gwasanaethu yn y weinidogaeth am ddeugain mlynedd ac mae wedi cael gwireddu'r freuddwyd honno. Bydd nifer ohonom yn cofio amdano fel ficer diwyd ac ymroddgar Eglwys Dewi Sant. Oddi yno yr aeth yn 1993 yn Archddiacon Meirionnydd. Mae ef a'i gymar Cynthia yn bwriadu symud i fyw yn nhref Aberteifi nid nepell o fro'i eni yng Nghwm Gwaun. Oddi yno gobeithia gael mwy o gyfle i dreulio amser gyda'i wyrion. Mae ei fab, Siôn Brynach yn Swyddog y Wasg i'r Archesgob yma yng Nghaerdydd. Wrth ystyried ei olynydd, mae rhai pobl wedi awgrymu y gallai esgobaeth Bangor uno gydag esgobaeth Llanelwy. Amser a ddengys.

## Ymddeoliadau dwy athrawes ymroddgar

Roedd yn drist clywed am benderfyniad **Rhian Tilley** i ymddeol yn gynnar oherwydd salwch. Bu Rhian yn aelod gwerthfawr o dîm athrawon bro Caerdydd am ymron ugain mlynedd gan roi gwasanaeth gwiw i ysgolion y Fro. Wrth i'r gwasanaeth ymestyn bu'n addysgu'r Gymraeg yn ail iaith yn ysgolion babanod ac iau ardal Elái a gorllewin Caerdydd.

Merch o Bentrebaen yw Rhian. Cafodd ei magu ar aelwyd Saesneg ac fe'i hysbrydolwyd i ddysgu'r Gymraeg gan athrawon Ysgol Uwchradd Cantonian a Gwilym Roberts. Cafodd swydd yn athrawes bro gan Benni Harris, Cyn-ymgynghorydd Iaith De Morgannwg ac mae'n werthfawrogol iawn o'i gefnogaeth ef a Linda Moran.

Dymuna'r *Dinesydd* ymddeoliad hapus i **Non Owen** ar ei hymadawiad ag Ysgol y Wern, Llanisien ar derfyn tymor y Nadolig. Mae gwreiddiau Non yn ne Ceredigion. Bydd colled fawr ar ei hôl a'i gofal mamol dros ei disgyblion. Diolchwn iddi hi am flynyddoedd lawer o wasanaeth cydwybodol.

## Mi ganaf gân a chodi hwyl

Fe fu Côr Hamdden Caerdydd yn cynnal cyngerdd Nadolig ganol mis Rhagfyr dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Yr Eglwys Newydd. Gwnaed casgliad ar gyfer Ysbyty Felindre ar ddiwedd y cyngerdd. Hefyd cynhaliodd wasanaeth Nadolig arbennig yng nghapel Heol Minny, gyda the parti Nadolig i ddilyn. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau'r Aelwyd a chan y llywydd Y Parchedig Owain Llyr Evans. Traddodwyd neges y Nadolig gan Y Parchedig Gareth Rowlands Gwaelod-y-garth. Yr organyd oedd Edwin Lloyd Jones.

## Apêl am wirfoddolion

Mae "Triongl Cymru" yn apelio am rai i fod yn gyfrifol am weinyddu llinellau ffôn cartrefi i estyn cymorth i lesbiaid, hoywon a deurywolion yng Nghaerdydd. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn ym Mai 2004. Golyga weithio am gyfnodau o deirawr bob hyn a hyn yn ystod wythnos. Os carai rhywun roi help llaw gall gysylltu â Dafydd Frayling ar 029 20 453030 (est 238).

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio cawsoch chi Nadolig hapus a chyfle i orffwys cyn ddechrau tymor newydd o ddysgu Cymraeg. Cawson ni wyliau da, a chafodd Cwtsh (y gath, i'r rhai sy ddim yn ei nabod hi) anrheg hyfryd. Mae'n greadur ar ddarn lastig sy'n hongian o ffrâm y drws. Dŷn ni ddim yn siŵr ai llygoden ynteu aderyn yw hi, ac felly rŷn ni'n ei galw'n 'llyderyn'. Mae hi wedi cael oriau o hwyl yn ymosod arni.

Rwy wedi bod yn ceisio dysgu Cymraeg i blant ysgol y tymor diwethaf, gwaith anodd ond diddorol. Mae llawer iawn o wahaniaeth rhwng dysgu plant a dysgu oedolion: gyda phlant, mae'n rhaid dweud popeth o leiaf chwe gwaith os ydych chi eisiau iddyn nhw wrando, er enghraifft – hyd yn oed os ydych chi'n ei ddweud yn Saesneg! Rwy wedi gwneud camgymeriad ambell waith wrth feddwl bod nhw wedi gwrando jyst achos bod nhw wedi deall! Hefyd, mae oedolion yn gwybod ystyr y gair 'tawelwch' Wrth gwrs, ar y llaw arall, rydych chi'n gallu gorfodi plant i wneud eu gwaith cartref, rhywbeth nad yw oedolion bron byth yn ei wneud!

Gobeithio bydd 2004 yn flwyddyn dda i chi. Cofiwch, os ydych chi eisiau ymarfer eich Cymraeg, mae llawer o bethau yn mynd ymlaen yng Nghaerdydd – edrychwch ar ein dyddiadur, neu cysylltwch â Menter Caerdydd i wybod mwy.

### Cyfarwyddwr newydd Ofcom Cymru

Cyfarwyddwr newydd Ofcom Cymru fydd Rhodri Williams sy'n ymddeol o fod yn gadeirydd Bwrdd yr Iaith. Mae gan Rhodri lawer o brofiad ym myd teledu. Yn 1990 cyd-sefydlodd Gwmni Teledu Annibynnol Agenda sydd â'i ganolfan yn Llanelli. Bu ei dad, Y Parchedig Raymond Williams, yn weinidog yn Y Tabernacl am flynyddoedd. Estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf iddo.

### Nofel gyntaf awdur o Gaerdydd

Mae Gwasg Carreg Gwalch newydd gyhoeddi nofel gyntaf Martin Huws, un o gyn-olygyddion *Y Dinesydd*. Mae'n un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Bryntaf ac Ysgol Uwchradd Cathays. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda'r BBC. Mae *Dim Niwed* ar werth am £5 – 50.

### Apêl Gwilym yn *Y Dinesydd*

Ers i'r rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* ymddangos mae dau gyfraniad arall wedi dod i law oddi wrth Elinor Mathias (ail gyfraniad) a Ray a Beti. Diolch o galon i'r cyfeillion hyn. Mae'r cyfanswm yn awr yn £720 ond mae papur bro hynaf Cymru'n barod i dderbyn calennig gan unrhyw rai sydd am sicrhau ei barhâd. Gyda chynnydd cyson mewn costau argraffu ac ati, mae'n ei chael hi'n anodd yn aml cael dau ben llinyn ynghyd.

### Ble Mae Myfanwy?

Mae Steve Jones wedi gwneud astudiaeth seicolegol mewn gair ac alaw o Myfanwy, y ferch ledrith a gysylltir fel rheol â Joseph Parry. Dinesydd o Fae Colwyn (gynt) yw Steve ac mae'n cyhoeddi deunydd sy'n ymwneud â'r celfyddydau yn y Gymraeg. Mae'n bosib cael yr "astudiaeth" (y geiriau a'r gerddoriaeth) am £5 dim ond cysylltu â Crane's, Caerdydd. Mae swyddfa Cyhoeddiadau Cerddoriaeth LOKA yn 65 Heol Tudur, Caerdydd CF11 6AD

## O Wyddelwern i Dinas




Cafodd Wyn Williams ei eni yng Ngwyddelwern ar ddechrau'r chwedegau. Fe aeth i'r ysgol gynradd yno cyn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Y Bala. Yna trodd ei olygon am Gaerdydd a mynd i ddilyn cwrs ar gyfrifiaduraeth yn U.W.I.S.T.

Yn fuan cafodd waith yn y brifysgol yn rhaglennu'r cyfrifiaduron newydd oedd yn dechrau dod yn boblogaidd yn yr wythdegau. Roedd hefyd yn gweithio oddi cartref, yn gwneud gwaith ar gontract i fusnesau'r ddinas. Pan oedd wrth ei waith yn y coleg tua deg y cant ohonom oedd yn berchen cyfrifiadur (digon drudfawr ar y pryd) ac roedd angen gweledigaeth i broffwydo y byddent yn costio llai gyda'r blynyddoedd. Roedd y weledigaeth hon ganddo fe.

Gan fod Ann, ei wraig, yn athrawes, teimlai y gallai ddefnyddio'r cyflog wrth gefn a mentro i gychwyn ei fusnes ei hun. Trwy lwc roedd ystafelloedd yn sbâr i'w rhentu uwch siop fara Ferraris yn Heol y Crwys.

Gan fod Wyn yn awr yn ddinesydd go iawn ac am roi gwedd Gymraeg i'w fenter newydd, penderfynodd alw'r lle yn DINAS. Ei broblem oedd bod yr unig fynediad i'r siop i fyny set o risiau yn ymyl y siop fara ac roedd angen llygad craff i weld y drws a arweiniai at y grisiau cudd a arweiniai i'r uwchystafelloedd.

Roedd hyn i gyd yn dipyn o her iddo ond "mae'n rhaid gwario arian i wneud arian" a'i dargedau oedd y busnesau newydd oedd yn penderfynu prynu cyfrifiaduron am y tro cyntaf. I wneud hyn roedd yn rhaid iddo gael help. Cyflogodd aelod cyntaf ei staff yn lled fuan. Gallai hwnnw weithio yn yr adeilad tra âi ef allan i osod cyfrifiaduron i fyny yn ôl y galw.

Yna, rai blynyddoedd yn ôl, cafodd her i ehangu. Cyhoeddodd Ferraris eu bod yn bwriadu cau eu siop a doedd wybod pwy fyddai'n dod yno yn eu lle. Penderfynodd ef ac Ann mai'r cam doethaf i'w gymryd oedd pwrcasu'r holl adeilad ac ehangu ei fusnes yn weithdy a siop ehangach. Roedd y byd economaidd o'i blaid, gyda chyfrifiadur mewn ymron 80% o gartrefi erbyn hyn.

Wrth edrych yn ôl heddiw, mae'n falch iddo fe gymryd y cam. Gofynnodd *Y Dinesydd* iddo sut oedd yn gweld y dyfodol. Gwerthu mwy o gyfrifiaduron, yn naturiol, a dywedodd yr hyn mae pob un ohonon ni'n ei wybod sef bod pob cyfrifiadur yn datblygu'n chwim. Erbyn heddiw, rhaid cael cyfrifiadur i'r rhieni mewn sawl cartref a rhai i'r plant hefyd. Mae'n gweld yn barod y bydd sawl cartref yng Nghaerdydd yn gorfod rhwydweithio, gyda rhwydwaith ddiwifr fel y gall pob aelod o'r teulu fod wrth ei gyfrifiadur ei hun. Mae'n fwy na thebyg wrth gwrs y gellir adrodd stori debyg am ardal Gwyddelwern.

### Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau 2005

Mae Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau yn paratoi'r rhestr testunau ac mae'n chwilio am wobrau. Os carech chi gysylltu ag eisteddfod 2005, cysylltwch â'r trefnydd: Hywel Wyn Edwards, Swyddfa'r Eisteddfod, Hen Swyddfa'r Heddlu, Pen Deitsh, Caernarfon, LL55 2AU. Caiff yr eisteddfod ei chyhoeddi ar y dydd Sadwrn, Mehefin 25 2004.

### Eisteddfod Caerdydd 2008

Mae'r camau cyntaf wedi eu cymryd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn Awst 2008. Cam mawr pwysig yw cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Stadiwm y Mileniwm am 7.30pm ar nos Fawrth 23 Mawrth. Bydd angen nifer o ddwylo wrth y llyw, felly croeso cynnes i bawb.

# Newyddion o'r eglwysi

## Y Crwys

Plethwyd dathliadau tymhorol i alwad bywyd yr eglwys dros y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Illtud Lewis fu'n annerch y Froderfa ar Ddydd Mercher 3 Rhagfyr. Cafwyd ganddo sgwrs ddifyr a phryfoclyd yn olrhain dylanwad ôl-foderniaeth ar esblygiad y meddylfryd diweddar. Cafodd Cylch y Chwiorydd brynhawn gwerthfawr yn gwrando ar Hannah Thomas yn siarad am ei gwaith gweinyddol gydag S4C.

Bythefnos yn ddiweddarach cafwyd cyfarfod nadoligaidd ar y cyd, yn gwrando ar yr Athro J. Gwynfor Jones yn olrhain ychydig o hanes Cymry Cymraeg Caerdydd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ar ddiwedd y cyfarfod daeth cyfle i drin a thrafod y maes arbennig hwn dros baned ac ychydig o fins peis tymhorol.

Nos Lun 8 Rhagfyr cafodd y Grŵp Merched eu swper Nadolig blynyddol. Gweinyddwyd y bwyd gan rai o frodyr dewr yr eglwys. Y cadeirydd Babs Evans oedd yn llywio gweithgareddau'r noson a chafwyd cyfraniadau llafar gan Janet Parry-Jones a Non Davies.

Fore Sul 14 Rhagfyr daeth cynulleidfa niferus i weld bedyddio Cara merch Carys ac Antonio D'Auria a chwaer i Joel. Gweinyddwyd y sacrament gan ein gweinidog, Y Parchedig Glyn Tudwal Jones.

Brynhawn Sadwrn 12 Rhagfyr roedd y festri yn fwrlwm o frwdfrydedd disgwyliedig wrth i Siôn Corn alw. Rhannodd gynnwys ei sach gyda'r urddas arferol ac ni fu pall ar lawenydd ei edmygwyr ifanc. Bu gwasanaeth y bore Sul canlynol yng ngofal y plant, yr ieuenctid a'u hathrawon. Mewn oedfa i'w chofio cafwyd portread gwych o stori'r geni ar lafar ac ar gân. Profiad amheuthun oedd cael bod yn bresennol mewn gwasanaeth mor gaboledig. Aelodau y Gymdeithas fu'n arwain oedfa'r nos Sul cyn y Nadolig a chafwyd ganddynt ddewis dethol o ddarlleniadau a charolau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Roedd cynulleidfa gref yn bresennol i wrando ar y cyfraniadau hyn yn ogystal â phregeth amserol gan ein gweinidog. Llywyddwyd y cyfanwaith gan Rhian Williams.

Y Sadwrn yn dilyn y Nadolig aeth nifer o aelodau'r capel ar daith gerdded o gwmpas Merthyr Tudful. Castell Cyfarthfa oedd y man cychwyn a thalar y daith o ryw ddwy awr o gwmpas yr ardal ddiddorol hon. Ar lwybr y bererindod croeswyd traphont Cefncoedycymer, cafwyd seibiant wrth Bontycafnau a gweddillion ffwrneisi hen waith haearn Cyfarthfa. Daeth cyfle dros ginio bys a bawd i edrych ar fan geni Joseph Parry yn Chapel Row cyn mynd ymlaen heibio i adeilad Llys y Deisyfiau. Troi ein camau wedyn am ganol y dref a'r ffordd sy'n arwain yn ôl at gastell Cyfarthfa.

I gloi rhaid inni dderbyn y daw angau ar ein gwarthaf ar unrhyw adeg a hoffai Delyth a Glyn Tudwal ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth mam Delyth yn Aberystwyth. Mae'r cardiau, negeseuon a galwadau'n rhy niferus i'w cydnabod fesul un ond gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

## Minny Street

Llongyfarchiadau calonnog i Eirug Wyn ac Iona Williams (Penylan) ar enedigaeth Cynan Wyn (brawd bach i Mared) ac i Prys ac Yvonne Williams (South Croydon) ar enedigaeth Tomos Patrick (ŵyr i Len a Mererid Williams, Yr Eglwys Newydd). Cawsom dystio i fedydd Rhodri Dafydd, mab Hawys a Phillip Thomas (Llysfaen) a brawd bach Catrin a Daniel, yn yr oedfa foreol, 2 Tachwedd a Ceri John, mab Rachael a Richard James (Login) ac ŵyr Marion a Peter Garside, yn yr oedfa foreol ar 21 Rhagfyr. Dros yr wythnosau diwethaf cawsom y fraint o dderbyn a chroesawu nifer o aelodau newydd: Yolande Davies (Llandaf), Siân Edwards (Llandaf), Rhiannon James (Gwaelod y Garth), Richard ac Eirian Jones (Penylan), a Gareth Watts (Penylan).

Cawsom gyfarfodydd llwyddiannus iawn dan nawdd y Gymdeithas. Bu'r Parchedig Eifion Powell yn ein diddanu wrth iddo ddisgrifio ac olrhain rhai o'n harferion fel Cymry, cyn i ni gael blasu amrywiaeth o ddanteithion o waith ei briod, Catherine. Ddiwedd Tachwedd, cawsom groeso cynnes iawn gan gyfeillion y Tabernacl, Yr Aes gyda nifer o aelodau Minny Street yn cyflwyno rhaglen deyrnged, wedi ei llunio gan y Parchedig R. Alun Evans, i T Rowland Hughes. Mwynhad pur oedd cael gwrando a mwynhau rhannau o'i nofelau a'i farddoniaeth cyn profi gwledd o ddanteithion wedi'u paratoi gan gyfeillion y Tabernacl. I'n tywys at y Nadolig cawsom noson hwylus arall dan arweiniad John Albert Evans ynghyd â lluniaeth dymhorol wedi ei pharatoi gan nifer o'r chwiorydd. Sul cyntaf y flwyddyn newydd, cynhaliwyd gwasanaeth Plygain yng nghapel Bethesda'r Fro.

Wrth nesu at y Nadolig cafwyd cyfle i gofio am y rhai llai ffodus na ni. Bu plant yr ysgol Sul yn casglu pecynnau o losin wedi eu lapio mewn papur Nadolig i'w danfon i blant Romania; bu'r bobl ifanc, fel rhan o weithgaredd Cristnogion ifanc Caerdydd, yn paratoi bocsys ar gyfer *Operation Christmas Child* a bu'r aelodaeth gyfan yn cyfrannu parseli o ddillad cynnes, melysion ac ati ar gyfer eu rhoi yn anrhegion Nadolig i'r digartref yma yng Nghaerdydd.

Unwaith eto eleni Minny Street oedd yn gyfrifol am gyflwyno stori'r geni allan yn yr awyr agored ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia dros benwythnos gyntaf mis Rhagfyr. Bu cydweithio hwylus rhyngom â phobl ac anifeiliaid(!) y fferm a chafwyd tair noson lwyddiannus er budd gwaith y fferm. Wythnos yn ddiweddarach, cyflwynwyd gwasanaeth arbennig iawn gan yr ysgol Sul wrth iddynt ddefnyddio coeden Jesse a'n harwain o ardd Eden, drwy hanes y proffwydi at y geni gwyrthiol ym Methlehem. Ar y nos Sul cafwyd gwasanaeth Naw Llith a Charol bendithiol dan arweiniad Meudwen Davies a Marian Lake gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan. Fore Sul cyn y Nadolig, bu'r bobl ifanc hŷn, dan arweiniad Lona Evans, yn ein tywys at ŵyl tywysog tangnefedd. Bu'r Gweinidog yn ein harwain mewn gwasanaeth noswyl Nadolig ac yna, yng nghwmni cyfeillion y Crwys, ar fore Nadolig buom yn croesawu'r Crist newyddanedig gyda phobl ifanc y ddwy eglwys yn ymuno yn y gerddorfa, nifer o Minny Street yn cynorthwyo'r Gweinidog gyda'r rhannau arweiniol a'r Parchedig Glyn Tudwal Jones yn pregethu.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn llawn bendith dan arweiniad Owain Llyr a Lona. Croeso cynnes iawn i chwi ymuno â ni yn 2004.

## Bethel

Cafwyd y prysurdeb arferol dros gyfnod y Nadolig. Roedd y capel yn llawn ar gyfer yr oedfa Nadolig gyda nifer dda o blant a phobol ifanc yn cymryd rhan. Yr organydd oedd Richard Elfyn Jones. Diolch i Mrs Gwenda Francis am drefnu'r cyfan. Ar ôl yr oedfa cynhaliwyd parti i'r plant gyda Siôn Corn yn ymwelydd poblogaidd. Roedd y capel yn orlawn ar gyfer oedfa Noswyl y Nadolig – oedfa a drefnwyd gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Cydymdeimlir yn fawr â Mrs Mair Jenkins ar farwolaeth ei rhieni, Tom a Lil Evans. A chydymdeimlir hefyd â theulu cyn-aelod, y llawfeddyg Gwilym Griffiths, Casnewydd, yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Mary a Gareth Thomas, yr Eglwys Newydd, a fu'n dathlu eu priodas aur. Mae'r ddau newydd symud i Gaerdydd o ardal Trap, ger Llandeilo, a dymunir pob bendith iddyn nhw yn y brifddinas. Llongyfarchiadau hefyd i Iola a Howel James, Cyncoed, a ddathlodd eu priodas ruddem.

# Machlud breuddwydion David Morgan

Dechreuodd David Morgan ar ei yrfa yn gweithio mewn siopau yn Rhymni a Chasnewydd, Llundain a Birmingham cyn cychwyn ei fusnes ei hun ym Mhontlottyn.

Lle digon marwaidd yw Pontlottyn heddiw ond yn ei ddyddiau ef, roedd fel cwch gwenyn o brysur a daeth ei siop ddillad ar sgwâr Cwm Shôn Mathew yn boblogaidd yn syth; mor boblogaidd nes iddo agor ail siop yn 1858.

Teimlai yn braf ei fyd yn 1868 pan briododd â Margaret, merch o Bontlottyn. Yn anffodus, cafodd honno'i tharo â'r ddarfodedigaeth yn fuan wedi ei phriodas a bu farw yn 1870. Gellwch weld ei beddfaen yn ymyl y capel sydd ar y sgwâr, dim ond ichi dorri ffordd trwy'r drysni sydd yno.



*Siop David Morgan*

Bu marw Margaret yn ergyd drom i David ac aeth ati fel lladd nadredd i geisio anghofio am yr ergyd a gawsai. Prynodd bedair siop a dau ddwsin o fythynnod ym Mhontlottyn ac agor dwy siop ddillad yn Abertyleri rhwng 1875 ac 1879. Ond roedd yn weledydd craff a gwelai fod oes aur Pontlottyn yn dod i ben. Trodd ei olygon tua'r de a phrynu rhif 23, Yr Aes, siop fechan yng Nghaerdydd.

Bu'n llewyrchus, fel y gwyddom, ac ychwanegodd ati hi gyda'r blynyddoedd. Fe barhaodd yn llwyddiannus wedi ei farw yn 1919 ac mae sawl dinesydd wedi mwynhau oedi a hamddena yn y siop gartrefol hon.

Mae'n ddiddorol nodi ei bod yn nwylo'r un teulu o hyd, a disgynnydd, Mr John Morgan, sydd bellach wrth y llyw.

Ond mae'r rhod wedi troi. Erbyn heddiw, mae dyddiau'r siop deuluol yn dod i ben ac mae cymylau yn crynhoi uwch ei phen. Pan dduant, a phan ddaw'r adeg i gau'r drysau, os y daw, gallwn i gyd ddweud, "Bydd y golled ar ei hôl yn fawr."

# Llyfrau'n dinasyddion



Mae nifer o lyfrau wedi cyrraedd desg *Y Dinesydd*, pob un ohonyn nhw'n dal cysylltiad agos â'r ddinas mewn rhyw ffordd.

Dechreuaf gyda dau llyfr gan Siân Thomas, sef cofnod diddorol o ymateb *Owen Edwards a Mari Emlyn* i'w gilydd ar y naill law a *Gwenyth Petty a Sara Edwards* i'w gilydd ar y llaw arall. Siân Thomas yw un o'n cyflwynwyr radio a theledu mwyaf cyfarwydd a chrefftus ac mae wedi llwyddo mewn iaith sgwrs hamddenol ond effeithiol i roi cip inni o'r berthnas glos rhwng tad a merch a mam a merch. Mae'n dweud yn ei chyflwyniad iddi weld "natur yn cyw yn y cawl". Mae rhai o'r farn mai trosiad anffodus o "The nature of the chicken is in the caul," yw hwn. Gŵyr pob ffermwr gwerth ei halen bod math o benwisg (caul) dros ben cyw iâr wrth iddo dorri o'i blisgyn, felly beth am iddi ddweud o hyn allan bod natur y cyw yn yr wy gan ei bod yn addo rhagor o lyfrau inni. Bydd croeso cynnes iddyn nhw.

Llyfr tebyg ei naws yw *Beti a'i Phobol 2* gan grefftwraig arall yn y gamp o roi darlun inni o fywydau ei gwesteion a chaiff un o'n dinasyddion amlycaf, Ioan Gruffudd y bennod gyntaf. Edrychwn ymlaen at ei berfformiad yn y ffilm ar y brenin Arthur yn y man.

Dinesydd o'r enw Dewi Pws yw'r gwrthrych yn un arall eto o Gyfres y Cewri. Mae'n ŵr mwyn nad oes modd ei gymryd o ddifrif. Gan ei fod yn sôn ychydig am hynny yn y gyfrol, nodaf yma imi fod yn llygad-dyst o'i brofiad cyntaf erioed ym myd y ddrama, sef perfformiad o *Jonny Myfanwy* (trosiad o *Jonny Belinda*) yng Ngholeg Addysg Caerdydd. Fel y dywed yn y llyfr, roedd yn cael ei saethu yn y diwedd gan y ferch a dreisodd (Dorinda, actores wych o Lundain). Yn y perfformiad, camodd mewn ing y tu blaen i'r llenni wrth drengi, ac roedd yno wedi i'r rheiny gau. Yr hyn na ddywed yw ei fod yn rhy addfwyn a thyner i fod yn dreisiwr yn y ddrama. Yng ngolygfa'r trais (oedd i ddigwydd ar wely o wair) roedd Dorinda druan yn ceisio ei annog i fod yn dreisiol tuag ati ac ymaflyd yn flysig ynddi ond roedd Dewi'n rhy swil a boneddigaidd ac yn y diwedd, bu'n rhaid trefnu iddyn nhw actio "o'r golwg" a gosod bwrn o wair ar y llwyfan i guddio'i swildod. Dyma lyfr llawn hwyl fydd at ddant pawb.

Dinesydd amlwg arall, Meic Stephens yw awdur *A Semester in Zion*, dyddiadur sy'n croniclo'n ddiddorol ei gyfnod fel Athro gwadd yng nghadarnle'r Mormoniaid ger Salt Lake City yn Utah yn 1991. Mae wedi plethu cipolygon ar dameidiau o'i fywyd a'i ymchwil i'w wreiddiau yng nghorff y gwaith. Mae hyn yn anghyflawn er yn flasus ond dywed wrthym: "If there are any aspects of my life which are not treated here, I can only half-promise to write about them in some other context". Hir yw pob aros...

Llyfr Saesneg arall sy'n werth ei brynu yw *Cardiff Central* lle y mae deg o ddinasyddion, yn ddynion ac yn wragedd, yn rhoi cip inni ar y ddinas trwy eu llygaid hwy. Maen nhw'n dangos, trwy ddatgelu eu profiadau, pa mor anodd yw hi i gynnal papur bro mewn dinas. Cewch wybod yno hefyd pa gapel Cymraeg a gâi ei alw'n Snobs' Chapel ar un adeg.

Yn olaf, dwy nofel, y naill gan Geraint Lewis (*Daw Eto Haul*) a'r llall gan Owen Martell (*Dyn yr Eiliad*). Pan lansiwyd *Y Dinesydd* prin iawn oedd nofelau Cymraeg oedd â'u cefndir yn drefol neu'n ddinesig ond mae'r ddwy nofel afaelgar a dadansoddol yma wedi eu gosod yng Nghaerdydd, heb ddarn o gae neu fryn yn agos atyn nhw. Mae'r ysgrifennu a'r plotio'n gelfydd a diddorol yn y naill nofel a'r llall ac yn ffordd wych i'n helpu inni ddod i wybod mwy am rannau o'r ddinas nad ydyn nhw mor gyfarwydd â hynny i bawb.

**WJJ**

# Newyddion o'r ysgolion

## Tipyn o Gamp

Mae byd y campau yn newid o flwyddyn i flwyddyn Mae'r *Dinesydd* yn hapus gweld Cymry Cymraeg yn disgleirio yn rhai o'r campau hyn. Fe fu'n holi dwy gampwraig o'r un teulu. A'r cwestiwn cyntaf i'w holi yw, pwy ydyn nhw?

Wel, mae Heledd Williams, sy'n naw oed, yn ddisgybl yn ysgol Mynydd Bychan a'i chwaer hŷn Manon, sy'n ddeuddeg oed, newydd ddechrau yng Nghlantaf. Maen nhw wedi cael tymor llwyddianus iawn yn eu hoff gamp, triathlon. Dyma lun o'r ddwy.



Cyfuniad o nofio, beicio a rhedeg, i gyd mewn un ras yw triathlon. Mae'r pellter yn amrywio gydag oed. Mae Heledd yn nofio 150m, beicio 2000m a rhedeg 800m i rai dan ddeg ac mae Manon yn nofio 200m, beicio 4000m a rhedeg 1500m i rai dan ddeuddeg. Mae clwb triathlon yn cyfarfod bob nos Lun yng nghanolfan hamdden Maendy, Caerdydd. Ac mae'r ddwy ymhlith y sêr.

Mae Heledd wedi ennill y bencampwriaeth dan ddeg dros Gymru gyfan ac mae Manon wedi cynrychioli Cymru ym mhencampwriaeth Prydain eleni. Tipyn o gamp.

Yn ddiweddar, ar wahân i Gaerdydd maen nhw wedi bod yn Llanelli, Pencoed, Cymer, Tonyrefail, a Loughborough. Felly, os oes rhai ohonoch chi am deithio byd, triathlon amdani.

## Llwyddiant Disgyblion Ysgol Y Wern

Mae rhai o ddisgyblion Ysgol Y Wern wedi profi llwyddiant mawr yn ddiweddar, a hynny mewn dwy gamp. Yn gyntaf mewn cystadleuaeth "Ysgolion yn erbyn Hiliaeth" daeth Elizabeth Clements Blwyddyn Tri yn gyntaf. Daeth y wobr iddi hi am lunio poster ar y thema: "Dathlu ein Gwahaniaethau". Cafodd wobr o £50 yn ogystal â £150 ar gyfer yr ysgol.

Fe fuodd yr ysgol yn cystadlu hefyd yng nghystadleuaeth Gŵyl Heddwch Caerdydd a'r Fro. Yr un a ddaeth yn gyntaf am wneud llun oedd Lisa Medi Jones Blwyddyn pedwar. Daeth Caitlin Rees (Blwyddyn pump) yn ail yn yr adran farddoniaeth. Daeth William Roberts ac Emyr Davies (y ddau o Flwyddyn pump) yn drydydd yn yr adran farddoniaeth.

Cafodd yr ysgol ei dewis i gymryd rhan mewn prosiect wedi ei drefnu gan yr NSPCC. Fe fuodd plant Blwyddyn chwech yn gweithio ar fideo yn edrych ar rôl Cefnogwyr Cyfoedion yr ysgol. Fe fydd y fideo yn cael ei dangos mewn cynhadledd ar fwlio yn Sir y Fflint a drefnwyd gan Childline Cymru.

Llongyfarchiadau i'r tîm traws gwlad a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth yr Urdd.



*Lisa Medi Jones, William Roberts, Emyr Davies, a Caitlin Rees.*

## Cychwyn ysgol newydd – croeso i'r Berllan Deg

Mae dechrau blwyddyn yn gyfnod cwisiau ac un cwestiwn cwis diddorol fyddai pa sawl ysgol Gynradd Gymraeg sydd yng Nghaerdydd erbyn hyn. Yr ateb yw naw, a dyma nhw ichi yn nhrefn yr wyddor: Bro Eirwg, Coed-y-gof, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Pen-cae (ar safle'r ysgol "gyntaf" sef Bryn-taf), Pwll-coch, Treganna, Y Berllan Deg ac Y Wern. Hynny yw, mae tua thair mil o blant mewn ysgolion Cymraeg yn y ddinas erbyn hyn, mwy nag mewn unrhyw sir arall yng Nghymru.

Dechreuodd yr ysgol gyda deg disgybl yn Ysgol Gynradd Albany yn 1999. Pan adawodd yr ysgol honno yn 2002 i fynd i gabanau ger Ysgol Uwchradd Llanedeyrn, roedd 62 ar y llyfrau. Erbyn hyn mae 149 o blant yn mynychu'r ysgol ac mae lle yn yr adeiladau newydd a moethus ar gyfer 400. Mae ynddi hi ystafell gyfrifiaduron, ystafell gerdd a llyfrgell yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth.

Mae dalgylch yr ysgol newydd yn eang, yn ymestyn o Bontprennau i Dremorfa ac mae dros 95% o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Pam Y Berllan Deg? Ar un adeg roedd llawer o Lanedeyrn dan goed, ynghyd ag ambell dyddyn. Penderfynwyd peidio â defnyddio "coed" yn yr enw a dewis "perllan" yn ei le. Deg o ddisgyblion oedd yn yr ysgol ar ddechrau'r daith a theg yw pob perllan a dyna'r Berllan Deg. Does dim angen i'r *Dinesydd* broffwydo y bydd pob un o'r 400 lle wedi ei lenwi yn y man. Mae addysg Gymraeg yn y ddinas yn tyfu'n fwy poblogaidd yn gyson.

Mae'r llun isod yn dangos Y Cynghorydd Peter Perkins yn estyn rhodd i rai o'r plant gyda'r brifathrawes, Mrs Rhian Jones ar y dde.



# BRO MORGANNWG

### Plant mewn angen

Unwaith eto eleni, cafwyd môr o hwyl yn yr ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen y BBC, ac fe lwyddodd y disgyblion a'r athrawon i godi £2,750 tuag at yr achos da yma – dros ddwywaith cyfanswm 2003 o £1,200. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys gêm bêl rwyd rhwng merched Blwyddyn 10 a'r athrawon. Er gwaethaf perfformiad cryf gan yr athrawon, a oedd yn cynnwys Mr Richard Chidley a Mr Gwion Dafydd, y disgyblion fu'n fuddugol, o 12 gôl i 5.

Gweithgareddau eraill a drefnwyd oedd gwerthu cacennau a chrysau-T, a thawelwch noddedig gan y disgyblion a dderbyniodd groeso arbennig o frwd gan yr athrawon!



*Rhai o griw "Plant mewn Angen"*

Nid dyma'r unig elusen i'r ysgol ei chefnogi eleni. Drwy'r dyddiau gwisg anffurfiol a gweithgareddau eraill. Codwyd £587 i Tŷ Hafan, yn cynnwys casgliad y gwasanaeth diolchgarwch a £110 wedi ei gyfrannu gan Miss Mari Williams a redodd ras hanner marathon Caerdydd. Cymerodd y disgyblion a nifer o athrawon a rhieni ran eleni eto yn y 'Walkathon' er lles Sefydliad Prydeinig y Galon y tymor diwethaf a llwyddwyd i gasglu £663 mewn nawdd. Codwyd £300 yr un ar gyfer elusennau Marie Curie a LATCH yn ogystal.

## Under Milk Wood

Cafwyd perfformiad theatrig cyntaf Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ychydig cyn y Nadolig: llwyfannodd yr adran Saesneg, dan gyfarwyddyd Miss Judith Williams, gynhyrchiad o *Under Milk Wood*, i ddathlu hanner canmlwyddiant ers marwolaeth Dylan Thomas. Cymerodd dros 30 o ddisgyblion Bl 8, 9 a 10 ran yn y ddrama, gydag athrawon a disgyblion hefyd yn cydlynu gwisgoedd ac offer y tu cefn i'r llwyfan. Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn a chytunodd pawb ein bod wedi cael noson arbennig iawn, a gwledd o dalent yn amlwg ar y llwyfan. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhan o'r cynhyrchiad.



*Judith Williams yn cyfarwyddo*

### Gwibdaith Theatr i Lundain

Yn ddiweddglo cyffrous arall i'r tymor, bu grŵp o ddisgyblion Bl 9 a 10 ar wibdaith theatr i Lundain. Yn dilyn ymweliad â'r Imperial War Museum, ble cafodd y disgyblion gyfle i brofi teimladau'r milwyr yn y ffosydd ac i ddeall yn well y cerddi rhyfel y buont yn eu hastudio yn y dosbarth, aethant i weld cynhyrchiad fin nos o *Blood Brothers* gan Willy Russell, sy'n destun gosod TGAU mewn drama ar gyfer 2005. Ar ôl noson foethus yng ngwesty'r Hilton, aeth y disgyblion ar daith o amgylch Theatr y Globe a chawsant gyfle i fynychu gweithdy Shakespeare. Golyga'r adran drefnu gwibdaith theatr fel hyn bob Nadolig, fel bod y disgyblion yn gallu dysgu am Shakespeare a chael cyfle i weld perfformiadau byw o ddramâu gosod.

### Da iawn Beth!

Cynhaliwyd rownd derfynol y rhaglen Wow Ffactor ar S4C ganol Rhagfyr gyda thair merch yn cystadlu am y cyfle i berfformio ar y teledu gyda rhaglen hanner awr arbennig i'r enillydd. Losa Pedrick o Wauncaegurwen enillodd ond yn drydydd oedd Beth sy'n bedair ar ddeg oedd o'r Barri. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Pob lwc iddi hi yn y dyfodol.

# GLANTAF

Do, fe fuodd yn dymor prysur a thoreithiog iawn unwaith eto yn allgyrsiol yma yng Nglantaf yn ystod y tymor diwethaf, gyda pherfformiad o'r sioe gerdd 'Chicago' gan Emyr Edwards a Huw Chiswell nôl yn Nhachwedd, a'n Gwasanaeth Carolau yn yr Eglwys Gadeiriol yn Llandaf ar y 9fed o Ragfyr.

Stori ar lafar ac ar gân oedd 'Chicago' am fywyd Murray yr Hump - ei deulu wedi ymfudo i Chicago ac yntau wedi troi yn giangstar o fri!! Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang bob noson ac fe allwn fod wedi gwerthu tocynnau ar gyfer dwy nosweth ychwanegol!! Sioe wefreiddiol yn wir ymhob ystyr y gair, lliwgar, llawn hiwmor a thristwch, a'r cyfan wedi ei lwyfannu mor gelfydd ac un a fydd yn aros yn hir iawn yn y cof. Dyma beth oedd llwyddiant ysgubol.
Llongyfarchiadau mawr iawn i'r 160 o ddisgyblion o flynyddoedd 8 - 13 a gymerodd ran, ac wrth gwrs i'r aelodau o staff a rhieni a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd. Edrychwn ymlaen at y nesaf yn Nhachwedd 2005!

Gwefr yn wir oedd perfformio ein 'Naw Llith a Charol' yn Eglwys Gadeiriol Llandaf gyda'i hacwstig a'i hawyrgylch hollol unigryw. Roedd y lle dan ei sang, a braf eto oedd gweld tua 170 o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan, o gôr llawn cymysg, i barti bechgyn, i gerddorfa, i fandiau pres a jazz, i ensemble llinynnol, i unawdau lleisiol ac offerynnol, detholiadau llafar a darlleniadau graenus. Braf iawn oedd clywed Mrs. Rhiannon Lloyd yn darllen llith o'r pulpud, a hyfryd oedd croesawu Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas i'n plith i lefaru un o ddarlleniadau'r gwasanaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd, diolch am ein tywys i ysbryd yr Ŵyl a hefyd am fynd yn ddwfn i'ch pocedi ar gyfer elusen ein hysgol am eleni - Ysbyty Felindre, Yr Eglwys Newydd.

## Yr Hen Galan

Eleni eto, cafwyd noson lwyddiannus iawn tra'n dathlu'r hen galan yn nhafarn y Mochyn Du, nos Wener 9 Ionawr. Cafodd y gynulleidfa eu diddanu gan ddawnswyr Twrch Trwyth a'r Farī Lwyd a cherddoriaeth gan grŵp gwerin *Toreth*. Roedd yn gyfle gwych i ddysgwyr a Chymry'r ddinas ymuno yn un o hen draddodiadau'r Cymry. Isod dyma lun o'r Fari Lwyd yn dod i dderbyn y croeso.



## Clwb Rygbi Merched

Mae'r clwb rygbi i ferched wedi sefydlu ers chwe mis bellach, a nos Wener, 9 Ionawr cafodd y merched eu cyfle cyntaf i gystadlu mewn cystadleuaeth "Rygbi Touch" yn Stadiwm y Mileniwm. Derbyniwyd nawdd tuag at git oddi wrth fanc HSBC. Er na fu'r merched yn llwyddiannus y tro hwn, cafwyd llawer o hwyl wrth gystadlu. Mae'r llun isod yn dangos y wên ar eu hwynebau. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fercher rhwng hanner awr wedi chwech a hanner awr wedi saith yng nghae rygbi Eglwys Newydd. Os carech chi ymuno â nhw cysylltwch ag: Angharad@MenterCaerdydd.org



## Cynllun Chwarae

Mae Cynllun Chwarae Menter Caerdydd yn digwydd o 16 hyd at 20 Chwefror yn ysgolion Treganna (Treganna), Y Berllan Deg (Llanedeyrn) a chapel Bethel (Llanisien). Mae croeso yno i blant rhwng pump ac un ar ddeg oed o hanner awr wedi wyth y bore tan hanner awr wedi pump y pnawn. Mae'r cyfan yn costio £12 y dydd. Os carech chi gael ffurflen gais ffoniwch Menter Caerdydd ar 02920 565658

# Materion Yr Urdd

### Yr Urdd a Chanolfan Mileniwm Cymru

Mae sawl dinesydd wedi treulio amser yng nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy drwy'r blynyddoedd, yn bugeilio plant, yn eu cludo yno ac oddi yno. Bu'n ganolfan hylaw i lu o weithgareddau ieuenctid, ond ar y chweched o Hydref eleni bydd tro ar fyd gan y bydd Urdd Gobaith Cymru yn symud i Ganolfan Mileniwm Cymru yn y Bae.

Bydd y Ganolfan newydd mewn adeilad newydd ysblennydd yn cynnwys llety i 150 o blant a phobl ifanc, neuadd aml-bwrpas sy'n gallu bod yn theatr i 150, ystafelloedd dosbarth, lolfeydd, ffreutur a swyddfeydd i staff y mudiad yn yr ardal.

Y gobaith yw y bydd 10,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru yn dod yn flynyddol i gael profiadau celfyddydol, ac i gael blas ar fywyd y ddinas. Gobeithir y bydd gwersyll yn agor o gwmpas y Nadolig.

Bydd cyfleoedd hefyd i blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro fanteisio ar y cyfleusterau gwych fydd yno. Bydd modd iddyn nhw fynychu'r cyrsiau penodol fydd yn cael eu cynnal yno, a all gynnwys cyrsiau celfyddydol o bob math. Bydd cyfle iddyn nhw berfformio yn theatr yr Urdd, ac i fynychu gweithdai a gweithgareddau fydd yn cael eu cynnal gan yr Urdd yn y Ganolfan.

Mae'r Urdd yn gobeithio y bydd y Ganolfan yn dod yn lleoliad pwysig i hyrwyddo Cymreictod yng Nghaerdydd. Fe fydd cyfle i bob math o fudiadau diwylliannol ddefnyddio'r adnoddau fydd yno. Gobeithir y bydd yr Urdd hefyd yn gallu sicrhau fod lle amlwg i'r Gymraeg ym mywyd Canolfan Mileniwm Cymru.

Bydd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2005 hefyd yn cael ei chynnal yno, a heb amheuaeth bydd yn wahanol iawn i'r un a fu yn y ddinas ddwy flynedd yn ôl.

### Yr Urdd yn Penodi Prif Weithredwr newydd



Mae'r Urdd wedi penodi Efa Guffudd Jones yn Brif Weithredwr nesaf y mudiad.

Mae Efa wedi bod yn Gyfarwyddwr Datblygu'r Urdd ers tair blynedd a hanner. Dyma'r tro cyntaf i'r mudiad benodi merch yn Brif Weithredwr.

Eisoes profodd Efa ei gallu fel Cyfarwyddwr Datblygu lle bu'n llwyddiannus i ddenu nawdd i'r mudiad. Profodd hefyd ei gallu i arwain prosiectau penodol ac i gydweithio'n agos gyda staff, aelodau'r mudiad, gwirfoddolwyr a phartneriaid o'r sector cyhoeddus a phreifat.

Bydd Efa yn cychwyn ar ei swydd newydd ddechrau mis Mawrth. Mae'n hanu o ddinas Abertawe ond mae wedi bod yn byw yng Nghaerdydd ers cryn amser bellach.

# Tudalen i'r Plant

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | U | R | R | A | B | D | W | P | A | Y | R | O | B | I | N |
| W | N | M | H | B | A | R | A | E | F | L | S | S | N | T | A |
| G | R | H | T | R | W | A | M | R | O | R | F | E | W | H | C |
| H | O | N | D | G | I | N | N | E | L | A | C | L | U | E | W |
| W | E | H | T | A | P | I | R | H | C | A | E | E | P | T | E |
| L | L | W | Y | D | R | E | W | T | N | A | F | F | Y | L | L |
| D | I | I | Y | A | H | I | W | L | E | T | E | R | R | D | S |
| R | O | I | R | F | E | L | G | S | I | U | H | I | W | D | Y |
| A | N | A | E | R | F | Y | N | E | I | D | R | O | E | W | Y |
| E | A | S | E | Y | R | A | R | I | E | U | H | R | N | N | S |
| N | W | G | O | A | E | R | E | T | W | R | T | O | S | A | T |
| O | R | R | G | W | I | W | E | R | A | G | B | B | C | B | L |
| G | L | O | R | N | E | W | L | A | M | I | C | I | D | W | U |
| D | R | O | E | T | H | I | O | N | P | N | U | N | S | R | M |
| B | C | F | D | I | A | I | R | U | D | A | G | S | Y | C | B |

Mae dau ddeg o eiriau'r gaeaf yn cuddio yn y llythrennau uchod. Maen nhw'n mynd i fyny ac i lawr, o'r chwith i'r dde ac o'r dde i'r chwith, ac ar letraws. Edrychwn ar ch, ff, ll a th fel dwy lythyren am y tro er mai cytseiniaid ydyn nhw. Chwiliwch amdanyn nhw. Mae **cysgaduriaid** y gaeaf yma: **broga, llyffant, ystlum, draenog, malwen, crwban, neidr, gwiwer, pathew**. Mae tri o fisoedd y gaeaf yma hefyd: **Ionawr, Chwefror, Mawrth**. Mae un o adar cyfarwydd y gaeaf yma hefyd, y **robin**. Mae ychydig o'r hyn a welwch chi yn nhywydd y gaeaf yma hefyd: **llwydrew, barrug, pibonwy, eira**. I orffen, bydd rhai plant yn hel **calennig** a bydd rhai plant yn **sglefrio** ar lyn. Pob hwyl.

******

**Ydych chi'n berson doeth? Tybed? Atebwch yr wyth cwestiwn hwn. Os cewch chi'r wyth yn gywir, rych chi'n ddoeth iawn. Dyma nhw:**

1. Sawl gwaith y gallwch chi dynnu un (1) o 25?
2. Rydych chi mewn ystafell dywyll. Mae gennych chi un fatsien i gynnau tân, lamp olew a channwyll. Pa un ddylech chi gynnau gyntaf?
3. Rydych chi'n mynd i'r gegin a gweld bod Mami wedi gadael y tap dŵr oer ymlaen. Mae'r dŵr yn gorlifo'r sinc ac wedi mynd dros y gegin i gyd. Mae mop, bwced, jwg blastig a llestr llwch gennych chi wrth law. Beth wnewch chi gyntaf i gadw'r dŵr rhag gwneud rhagor o ddifrod? Nid "galw Mami" yw'r ateb!
4. Pa mor bell i goedwig y gall ci fynd?
5. Mae pum afal mewn basged ac mae pump ohonoch chi eisiau afal. Sut y gallwch chi roi afal i bob un a chadw un afal ar ôl yn y fasged?
6. Os yw'n cymryd tair munud i dair cath ladd tair llygoden, faint o amser gymer cant o gathod i ladd cant o lygod?
7. Oes hawl gan ddyn briodi chwaer ei wraig weddw?
8. Mae'n 28 Chwefror ac rydych yn mynd i'r gwely'n gynnar, am saith y nos. Rydych yn gosod y cloc larwm ar wyth o'r gloch i'ch deffro am wyth trannoeth. A derbyn eich bod yn cysgu'n drwm trwy'r amser, am sawl awr y byddwch chi wedi cysgu cyn i'r larwm ganu?

******

**Atebion i'r un doeth:**

1. *Unwaith. Ar ôl y tro cyntaf, 24 fydd gennych chi! Yna 23 ac ati...*
2. *Y fatsien.*
3. *Troi'r tap i ffwrdd.*
4. *I'r canol. Mae'n dod allan wedyn.*
5. *Rhoi'r fasged i un o'ch ffrindiau â'r afal ynddi hi.*
6. *Tair munud. Dyna mae'n gymryd i un gath ladd un llygoden.*
7. *Na. Fel gŵr ei wraig weddw, byddai'n farw.*
8. *Un awr. (byddai'r larwm wedi canu am wyth y nos!)*



# Calendr y Dinesydd

**Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm**

**Gwener, 6 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'Atgofion Llyfrgellydd.' Sgwrs gan Brynmor Jones o Lyfrgell Ganolog Caerdydd, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m.

**Gwener 6 Chwefror**
Cylch Cadwgan: Gwyn Griffiths yn siarad ar y testun 'Yr Awdur yn Llydaw' yn Ysgol Gynradd Creigiau am 8 p.m. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi.

**Sadwrn, 7 Chwefror**
Sefydliad Ymchwil y Galon: Cyngerdd er budd y Sefydliad yng nghwmni Côr Meibion Pontarddulais a'r unawdwyr Fflur Wyn (soprano) a Selyf Shapey (fiolin) yn Narlithfa 1, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Caerdydd am 7.00 p.m. Tocynnau: £6.00 Am docynnau a rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Anne Innes ar 029-2061-6230.

**Llun, 9 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Llundain a . . .' Sgwrs gan Eirwen Jones, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 13 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch Owain Llyr Evans, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Llun, 16 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyngerdd gan Aelwyd CF1, ym Methel, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 16 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Sgwrs gan Dr Rhodri Clwyd Griffiths (Llanarthne) ar Ardd Fotanegol Cymru, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: 'Hen Feddyginiaethau.' Sgwrs gan Hannah Roberts, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gerddorol yng nghwmni Euros Rhys, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 18 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs ar y testun 'Sioni Wynwns' gan Gwyn Pritchard, am 7.00 p.m.

**Gwener, 20 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Perthynas Gecrus: Iolo Morganwg a'i Gydweithwyr yn Llundain.' Sgwrs gan Glenda Carr (Bangor), yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Iau, 26 Chwefror**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Darlith gan Dr Christine James, 'Gwenallt: Bardd Cristnogol', am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 27 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Mount Sorrel am 7.30 p.m. ar gyfer 8.00 p.m. Prif westai: Rhodri Ogwen Williams.

**Sadwrn, 28 Chwefror**
Cwmni Mega yn perfformio 'Panto' (Gwenlyn Parry) yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Iau, 4 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Cinio Gŵyl Ddewi. Gwesteion: Iwan a Nansi Jones.

**Gwener, 5 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Darlith Gŵyl Ddewi'r Cymrodorion. Dathlu canmlwyddiant geni Waldo Williams yng nghwmni'r Prifardd Jâms Niclas, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m. Gwahoddir aelodau holl gymdeithasau Cymraeg Caerdydd i'r digwyddiad hwn.

**Llun, 8 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson gyda'r dysgwyr, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 6.30 p.m.

**Iau, 11 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Cylch Cynradd Dwyrain Caerdydd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am 1.00 p.m.

**Iau, 11 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Catrin Stevens. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.

**Gwener, 12 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Cylch Cynradd Gorllewin Caerdydd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr am 1.00 p.m.

**Gwener, 12 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Gŵr gwadd: Parch. Ddr R. Alun Evans.

**Gwener, 12 Mawrth**
Cymdeithas Carnhuanawc: Darlith Carhuanawc gan y Parch. Geraint ap Iorwerth ar y testun 'Owain Glyndwr - Seneddwr a Diplomydd', yng nhanolfan Chapter, Treganna, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 13 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Cylch Cynradd y Fro yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg am 9.00 a.m.

**Sadwrn, 13 Mawrth**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Bore coffi i ddysgwyr, yn cynnwys sgwrs gan Elisabeth Williams ar 'Mary Jones a'i Beibl', rhwng 10.30 a 12.00. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 15 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cinio Dathlu Gŵyl Ddewi, am 7.30 p.m. Gwr gwadd: John Albert Evans.

**Llun, 15 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Cyflwyniad gan ddisgyblion Ysgol Glantaf ar eu prosiect peirianneg, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 16 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Bois Parc Nest. Noson yng nghwmni'r tri brawd, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 16 Mawrth**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Rhaglen nodwedd yng ngofal Ann ac Islwyn Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 17 Mawrth**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Trafodaeth ar 'Baentiadau' gan y Parch. Owain Llyr Evans, am 7.00 p.m.

**Gwener, 19 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Diwygiad 1904 a Chaerdydd.' Sgwrs gan y Parch. Ddr Noel Gibbard, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 20 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Sir Cynradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr am 9.00 a.m.

**Mawrth, 23 Mawrth**
Cyfarfod cyhoeddus i drafod paratoi at gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2008, yn Stadiwm y Mileniwm am 7.30 p.m.

**Iau, 25 Mawrth**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Darlith gan Dr E. Wyn James, 'Mary Jones a'i Thaith i'r Bala', am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 27 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Sir Uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr am 9.00 a.m.

**Sadwrn, 27 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Aelwydydd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am 9.00 a.m.

**Mawrth, 30 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: 'Mae 'na stori fan hyn!', yng nghwmni Iorwerth Morgan, Dyrinos Thomas ac Elwyn Huws, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

# Le gallois

Y cymro

6-8 Romilly Crescent, Canton, Caerdydd CF11 9NR
Ffôn: 02920 341264 Ffacs: 02920 237911
info@legallois-ycymro.com

*Dewch i flasu bwyd a gwin wedi ei baratoi a'i weini gan y teulu Jones a Dupuy*

Ewch am dro i weld y wledd ar ein safle:
www.legallois-ycymro.com

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

# Gwyliau ym Mhen Llŷn

## *AR OSOD*

Tŷ moethus gyda golygfeydd godidog yn cysgu 6

Cysylltwch â

**01758 750 695**

# *Beth am wyliau yn y Gogledd yn 2004?*


Fflat hunangynhaliol wrth y Castell yng Nghonwy. Yn cysgu 4.
Prisiau o £190 - £430 yr wythnos
Safon 4 Seren BCC

**Tel. 01745 582627**
**neu www.francym.com**

# Fflach

CDs NEWYDD AR GAEL NAWR


***gareth thomas***
***bore trannoeth***


CD cyntaf Gareth sy'n cynnwys10 cân newydd.

Mae'r teitl-gân yn ddeuawd rhwng Caryl Parry Jones a Gareth, eu aduniad cyntaf ers dyddiau Bando.

Hwyl yn yr Haul
Derec Brown


*Casgliad o ganeuon newydd i blant*

Llys-y-Coed, Heol Dinbych-y-Pysgod, Aberteifi, Ceredigion SA43 3AH
Ffôn: (01239) 614691 www.fflach.co.uk e-bost: info@fflach.co.uk

menter caerdydd

## Swyddog: Gweithgareddau/Cynlluniau Gofal Plant

**Graddfa Cyflog: £18,000 37 awr yr wythnos**

Mae Menter Caerdydd yn edrych i benodi i'r swydd uchod er mwyn datblygu gweithgareddau i blant rhwng 3-11 oed ac i gydlynu Cynlluniau Gofal Plant cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol.
Nid yw profiad uniongyrchol yn y maes yn hanfodol ond mae'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol yn hollbwysig.
Lleolir y swydd yn swyddfa'r Fenter yn Ystum Taf, Caerdydd.
**Dyddiad cau y swydd uchod yw dydd Llun, Ionawr 26ain 2004.**
**Am fanylion a ffurflenni cais, cysylltwch â Siân Lewis, Menter Iaith Caerdydd, Uned 1, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd, CF14 2FG**
**Ffôn: 02920 565658 e-bost: SianLewis@MenterCaerdydd.org**
*This is an advertisement within Menter Iaith Caerdydd (Cardiff Welsh Language Initiative) for which the ability to speak Welsh is essential.*


## Dathliadau Hen Galan

Cafwyd noson lwyddiannus iawn eto eleni i ddathlu'r Hen Galan yn y Mochyn Du, nos Wener 9fed Ionawr. Cafodd y gynulleidfa eu diddanu gan ddawnswyr 'Twrch Trwyth' a'r Fari Lwyd a cherddoriaeth gan grŵp werin 'Toreth'. Roedd yn gyfle gwych i ddysgwyr a Chymry y ddinas ymuno yn un o hen draddodiadau'r Cymry.

## Clwb Rygbi Merched Y Fenter yn Y Stadiwm

Mae'r clwb Rygbi i Fenywod wedi sefydlu ers 6 mis bellach, a nos Wener, 9fed Ionawr cafodd y merched eu cyfle cyntaf i gystadlu mewn cystadleuaeth 'Rygbi Touch' yn Stadiwm y Mileniwm. Derbyniwyd nawdd tuag at git oddi wrth fanc HSBC, er na enillwyd yr un gwpan cafwyd llawer o sbort a phawb wedi mwynhau yn fawr. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fercher rhwng 6.30-7.30 y.h. yng nghaeau rygbi Eglwys Newydd. Os oes diddordeb ymuno cysylltwch ag Angharad@MenterCaerdydd.org


## Cynllun Chwarae Menter Caerdydd
## 16-20 Chwefror 2004

Ysgol Treganna (Treganna), Ysgol Berllan Deg (Llanedyrn) a Capel Bethel (Llanisien)

Croeso i blant 5-11 oed

**8.30am - 5.30pm – £12 y dydd**

Ffoniwch Menter Caerdydd - 20 565658 - am ffurflen gais